Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cydnerthedd Corfforaethol yn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Blwyddyn archwilio: 2020-21

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2388A2021-21

Paratowyd y ddogfen hon yn unol ag Adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, adran 40 Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2009 ac Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

# Cynnwys

Mae'r Awdurdod wedi dangos ei gydnerthedd byrdymor ond mae angen iddo wneud rhai penderfyniadau mawr i barhau i fod yn gydnerth yn y dyfodol.

Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Mae'r Awdurdod wedi dangos ei gydnerthedd byrdymor ond mae angen iddo wneud rhai penderfyniadau mawr i barhau i fod yn gydnerth yn y dyfodol 6

- Mae'r Awdurdod wedi rheoli cyllidebau'n dda, ond mae angen mynd i'r afael â rhai risgiau allweddol i barhau i fod yn gynaliadwy yn ariannol 6
- Mae gan yr Awdurdod fframwaith llywodraethu priodol ond mae angen i Aelodau fod â rôl fwy ganolog o ran mynd i'r afael â'r risgiau mawr sy'n wynebu'r Gwasanaeth Tân ac Achub 9
- Mae gan yr Awdurdod weithlu cydnerth ac mae wedi ymdrin yn dda â heriau uniongyrchol, ond mae rhai risgiau yn y tymor canolig y mae angen eu rheoli i sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy 10
- Mae gan yr Awdurdod enghreifftiau da o'r modd y mae'n integreiddio asedau ac yn datblygu ei ddefnydd o dechnoleg ond mae rhai heriau hirsefydlog y mae angen mynd i'r afael â hwy i helpu i gefnogi cydnerthedd yn y dyfodol 12
- Fe helpodd cynlluniau parhad busnes yr Awdurdod i gynnal cydnerthedd corfforaethol a gweithredol o ran ymateb i'r pandemig 13

Atodiadau

Atodiad 1 – Methodoleg 15

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Yn 2020-21 fe wnaethom gynnal adolygiad o gydnerthedd corfforaethol ym mhob Awdurdod Tân ac Achub (ATA) yng Nghymru i ddarparu sicrwydd ynghylch pa mor dda y mae pob Awdurdod yn mynd i'r afael â'r heriau ariannol a'r heriau o ran capasiti sy'n wynebu cyrff cyhoeddus. Mae'r adroddiad hwn yn nodi casgliadau ein hadolygiad ac yn gwneud cynigion ynghylch sut y gellir cryfhau cydnerthedd a chynaliadwyedd yn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ('yr Awdurdod').

2 Mae'r Sefydliad Safonau Prydeinig (BSI)[1] yn diffinio cydnerthedd sefydliadol fel, "gallu [sefydliad] i ragweld digwyddiadau – yn siociau sydyn a newid graddol – yn ogystal â pharatoi ar eu cyfer, ac ymateb ac addasu iddynt". Mewn geiriau syml, mae hynny'n golygu bod rhaid i sefydliad fod yn hyblyg, yn gystadleuol, yn ystwyth ac yn gadarn er mwyn gallu goroesi a ffynnu. Mae sefydliad cydnerth yn un a all ragweld ac ymateb i fygythiadau a chyfleoedd, sy'n codi o newidiadau sydyn neu raddol yn ei amgylcheddau mewnol ac allanol.

3 Mae uchelgeisiau Llywodraeth Cymru yn fersiwn gyfredol Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub yn galw am: "fynd ati'n barhaus i wneud yr ymdrech mwyaf posibl i adnabod a chyflawni arbedion effeithlonrwydd, i gynnal safonau llywodraethu uchel, ac i roi cyfrif mewn modd tryloyw am y modd y cyflenwir gwasanaethau" [2]. Mae Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub yn disgrifio'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl gan ATAau ac yn pennu disgwyliadau ar gyfer gwelliant, effeithlonrwydd ac arloesedd parhaus.

4 Fe wnaeth ein hadolygiad o gydnerthedd corfforaethol ystyried effaith COVID-19 a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r cyfnod cynllunio adferiad. Mae'n darparu sicrwydd ar gyfer yr Awdurdod, Llywodraeth Cymru, a dinasyddion Gogledd Cymru ynghylch y risgiau a'r heriau sydd i ddod ac yn sefydlu llinell sylfaen y gellir ei defnyddio i werthuso ymateb yr Awdurdod i'r heriau hyn. Fe wnaethom geisio ateb y cwestiwn cyffredinol: '**A yw'r ATA yn gydnerth ac yn gynaliadwy yn y tymor canolig?**'

### Yr hyn a ganfuom

5 Ar y cyfan, canfuom fod yr **Awdurdod wedi dangos ei gydnerthedd byrdymor ond bod angen iddo wneud rhai penderfyniadau mawr i barhau i fod yn gydnerth yn y dyfodol**. Fe wnaethom fwrw golwg ar bum maes penodol ac fe ganfuom fel a ganlyn:

- **Cyllid:** Mae'r Awdurdod wedi rheoli cyllidebau'n dda, ond mae angen mynd i'r afael â rhai risgiau allweddol i barhau i fod yn gynaliadwy yn ariannol;

[1] Safonau Prydeinig BSI, Tachwedd 2014

[2] Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub

- **Llywodraethu:** Mae gan yr Awdurdod fframwaith llywodraethu priodol ond mae angen i Aelodau fod â rôl fwy ganolog o ran mynd i'r afael â'r risgiau mawr sy'n wynebu'r Gwasanaeth Tân ac Achub;
- **Gweithlu:** Mae gan yr Awdurdod weithlu cydnerth ac mae wedi ymdrin yn dda â heriau uniongyrchol, ond mae rhai risgiau yn y tymor canolig y mae angen eu rheoli i sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy;
- **Asedau:** Mae gan yr Awdurdod enghreifftiau da o'r modd y mae'n integreiddio asedau ac yn datblygu ei ddefnydd o dechnoleg ond mae rhai heriau hirsefydlog y mae angen mynd i'r afael â hwy i helpu i gefnogi cydnerthedd yn y dyfodol; a
- **Pharhad busnes:** Fe helpodd cynlluniau parhad busnes yr Awdurdod i gynnal cydnerthedd corfforaethol a gweithredol o ran ymateb i'r pandemig.

## Cynigion ar gyfer gwella

**Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella**

Mae'r tabl isod yn nodi cynigion ar gyfer gwella yr ydym wedi'u hadnabod wrth gynnal yr adolygiad hwn.

| Cynigion ar gyfer gwella |
|---|
| **CaG1** Dylai'r Awdurdod adolygu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu i ddarparu sicrwydd bod trefniadau cyfredol o gymorth gyda chraffu cadarn, yn dwyn swyddogion i gyfrif ac yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r risgiau mawr sy'n wynebu'r Gwasanaeth Tân ac Achub. |
| **CaG2** I wella'r modd y cynllunnir ar gyfer olyniaeth dylai'r Awdurdod ailgychwyn ei raglen ymgeiswyr â photensial uchel ac adeiladu arni. |
| **CaG3** I gefnogi cydnerthedd dylai'r Awdurdod adolygu lleoliadau gorsafoedd i adnabod cyfleoedd i optimeiddio trefniadau ymateb brys. |

# Adroddiad manwl

## Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi dangos ei gydnerthedd byrdymor ond mae angen iddo wneud rhai penderfyniadau mawr i barhau i fod yn gydnerth yn y dyfodol

### Mae'r Awdurdod wedi rheoli cyllidebau'n dda, ond mae angen mynd i'r afael â rhai risgiau allweddol i barhau i fod yn gynaliadwy yn ariannol

6 Mae Awdurdodau Tân ac Achub yn wahanol i awdurdodau lleol eraill yn yr ystyr eu bod yn cael eu hariannu â chyfraniadau gan eu hawdurdodau cyfansoddol ac nad ydynt yn awdurdodau praeseptio na bilio. Felly mae cynllunio ariannol da'n golygu ymgysylltu a rheoli perthnasoedd cadarnhaol ag awdurdodau lleol. Yn gadarnhaol, yn 2019-20 fe wnaethom nodi yn ein hadroddiad bod yr Awdurdod wedi ymgysylltu â chyfarwyddwyr cyllid yn y chwe awdurdod cyfansoddol yng Ngogledd Cymru. Nid yw cyllid ar gyfer gwasanaethau tân ac achub yn ddewisol ac mae'r Awdurdod yn sicrhau cyllid gan ei awdurdodau cyfansoddol trwy ardoll. Fodd bynnag, mae ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yn y fath fodd yn helpu i wella'r ddealltwriaeth am y cyllid a ddarperir ar gyfer yr Awdurdod a gwella gwerthfawrogiad ohono, a chyn trafod gyda chynghorwyr lleol.[3] Gall yr Awdurdod adeiladu ar hyn wrth iddo ddatblygu ei ddull o gynnwys cymunedau lleol, yn ei waith cynllunio ariannol ac yn ei waith ehangach.

7 Nid yw pennu cydnerthedd ariannol yn wyddor fanwl gywir. Serch hynny, mae'n amlwg bod ar sefydliadau angen dull strategol cadarn i oleuo prosesau penderfynu da. Canfuom fod Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC) yr Awdurdod 2021-24 yn seiliedig ar asesiad da o amgylchedd gweithredu cyfredol yr Awdurdod ac ar ddealltwriaeth dda amdano. Er enghraifft, mae'n amlygu risgiau, tybiaethau ac ansicrwydd allweddol gan gynnwys disgwyliadau ynghylch tâl, rhwymedigaethau pensiwn ac effaith bosibl Brexit. Mae'r ansicrwydd parhaus oherwydd y pandemig yn cael ei ystyried hefyd, ac felly hefyd newidiadau deddfwriaethol i reoliadau adeiladu a chyfrifoldebau cysylltiedig yn dilyn yr ymchwiliad cyhoeddus i dân Tŵr Grenfell.

8 Yn ogystal â chyfraniadau gan y chwe awdurdod yng Ngogledd Cymru, mae'r Awdurdod hefyd yn cael arian grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gweithgareddau penodol. Mae hyn yn cynnwys arian ar gyfer Lleihau Tanau Bwriadol ac ymweliadau Diogel ac Iach â chartrefi. Er bod y gweithgareddau hyn yn rhan annatod o waith atal yr Awdurdod, mae dyrannu grantiau'n dal i fod yn ymarfer blynyddol. Gall natur fyrdymor cyllid Llywodraeth Cymru wneud cynllunio ariannol tymor hwy'n her i'r Awdurdod.

[3] Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru – Adolygiad o Gyfranogiad, Tachwedd 2020

9 Ar y cyfan, rydym yn dod i'r casgliad bod yr Awdurdod yn dda am reoli gwasanaethau o fewn y gyllideb, fel a ddangosir yn **Arddangosyn 2**.


**Arddangosyn 2 – Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru'n dda am reoli o fewn y gyllideb**

| Blwyddyn | Rhagolwg y Gyllideb - refeniw (£000) | Alldro am y flwyddyn - refeniw (£000) |
|---|---|---|
| 2017-18 | 33.16 | 33.16 |
| 2018-19 | 34.14 | 34.14 |
| 2019-20 | 35.24 | 35.23 |
| 2020-21 Amcangyfrif | 35.94 | – |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

10 Mae **Arddangosyn 3** yn dangos bod cyllideb refeniw'r Awdurdod wedi gostwng 8.4% mewn termau real dros y deng mlynedd ddiwethaf. Dengys ein dadansoddiad fod cyllidebau'r holl Awdurdodau Tân ac Achub (ATA) wedi gostwng mewn termau real ond yn gymesur nad yw Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru wedi profi'r un lefel o doriadau ar y cyfan o'i gymharu â'r cyrff cyfatebol yn Lloegr.

**Arddangosyn 3 – mae'r newid yn y gyllideb yn cymharu'n ffafriol ag Awdurdodau Tân ac Achub eraill**





Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru.

11 Er bod yr Awdurdod wedi gallu rheoli cyllid refeniw dros y blynyddoedd diwethaf, bydd ymdrin ag effaith COVID-19 a chyllid cyhoeddus ansicr yn y dyfodol yn her. Mae angen i'r Awdurdod ystyried ei sefyllfa ariannu'n ofalus a mynd ati'n rheolaidd i herio a diweddaru tybiaethau a chynllun ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC) gan bod y gost i bwrs y wlad o ganlyniad i ymateb i'r pandemig yn debygol o arwain at bwysau ar gyllidebau cyrff cyhoeddus am flynyddoedd i ddod. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod ei ragolygon yn cefnogi sefyllfa ariannol gynaliadwy a chydnerth ac yn helpu i gynorthwyo'r Awdurdod i drawsnewid ac optimeiddio modelau darparu gwasanaethau.

12 Mae Awdurdodau Tân ac Achub yn dal cronfeydd ariannol wrth gefn ac ar 31 Mawrth 2020 roedd gan yr ATA £3.2 miliwn o gronfeydd ariannol wrth gefn defnyddiadwy. Mae hyn yn cyfateb i 9% o wariant blynyddol yr ATA ar wasanaethau. Dengys **Arddangosyn 4** y newid mewn cronfeydd wrth gefn dros y blynyddoedd diwethaf.

**Arddangosyn 4 – Mae cronfeydd ariannol wrth gefn yr Awdurdod wedi aros yn sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

13 Mae Strategaeth Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn yr Awdurdod yn nodi'r risgiau y caiff digonolrwydd y cronfeydd ariannol wrth gefn ei ystyried yn eu herbyn. Ystyriaeth allweddol yw 'trin pwysau sy'n seiliedig ar y galw' sy'n golygu ei bod yn ofynnol i swyddogion fod â'r sgiliau a'r capasiti i reoli cyllidebau unigol yn ogystal â rheoli'r galw ar wasanaethau mewn modd effeithiol. Er bod cynnwys yr ystyriaeth hon yn cydnabod y cyfrifoldebau unigol ac ar y cyd am reolaeth ariannol, canfuom fod gan yr Awdurdod ragor i'w wneud i uwchsgilio swyddogion yn y maes hwn. Mae hyn yn rhan o her ehangach sy'n gysylltiedig ag ehangu sgiliau diffoddwyr tân i ddatblygu arweinwyr yr Awdurdod yn y dyfodol - gweler **paragraffau 29 i 31**.

## Mae gan yr Awdurdod fframwaith llywodraethu priodol ond mae angen i Aelodau fod â rôl fwy ganolog o ran mynd i'r afael â'r risgiau mawr sy'n wynebu'r Gwasanaeth Tân ac Achub

14 Llywodraethu yw'r system a ddefnyddir i gyfarwyddo a rheoli cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n ymwneud â strwythur a phrosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau, atebolrwydd, rheolaeth ac ymddygiad mewn sefydliad. Mae llywodraethu'n dylanwadu ar y modd y caiff amcanion sefydliad eu pennu a'u cyflawni, sut y caiff risg ei monitro a sut yr eir i'r afael â risg a hefyd sut y caiff perfformiad ei optimeiddio.

15 Mae cyrff cyhoeddus cydnerth yn cofleidio deialog agored ac yn defnyddio'u swyddogaeth graffu i ddarparu her adeiladol i uwch swyddogion wrth iddynt wneud penderfyniadau anodd ynghylch darparu gwasanaethau a defnyddio adnoddau. Gall arferion llywodraethu da fod â rôl flaenllaw hefyd o ran helpu aelodau ac uwch reolwyr i greu'r diwylliant cywir i sefydliad fod yn llwyddiannus a sicrhau gweithlu sy'n gryf ei gymhelliant ac yn effeithiol.

16 Mae gan yr Awdurdod fframwaith llywodraethu priodol. Mae conglfeini allweddol strwythur llywodraethu'r Awdurdod yn cynnwys:

- y Panel Gweithredol: sy'n cynnwys Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod ac sydd ag 11 o aelodau eraill ar hyn o bryd (dau wedi'u gwahodd fel cynrychiolwyr o bob un o'r chwe awdurdod cyfansoddol). Y Panel Gweithredol yw pwyllgor llunio polisïau allweddol yr Awdurdod gyda chyfrifoldebau am faterion polisi a chyfansoddiadol.
- y Pwyllgor Archwilio: sy'n cynnwys yr holl aelodau anweithredol (Panel Gweithredol) ac y mae ei gylch gorchwyl yn cynnwys archwilio a chraffu ar berfformiad, llywodraethu, rheolaeth ariannol a rheoli adnoddau, risg a sicrwydd.
- yr Awdurdod Tân ac Achub llawn: sy'n cynnwys 28 o gynghorwyr o'r chwe awdurdod unedol yng Ngogledd Cymru. Mae'n ateb gofynion deddfwriaethol allweddol ac yn sicrhau y cydymffurfir â'r rhain, yn cytuno ar gynlluniau allweddol a chyllidebau blynyddol ac yn monitro'r defnydd o adnoddau.

17 Caiff penderfyniadau ynghylch rhedeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd eu gwneud gan y Grŵp Gweithredol sy'n cynnwys uwch swyddogion. Mae'n cynnwys y Prif Swyddog Tân, tri Phrif Swyddog Tân Cynorthwyol a'r Prif Swyddog Cynorthwyol. Er y teimlir bod y strwythur cyfredol hwn wedi sicrhau dull cyson o wneud penderfyniadau, mae uwch swyddogion yn cydnabod bod angen yn awr i'r Awdurdod ddirprwyo'r cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. I wneud hyn, mae angen arfogi a meithrin rheolwyr i ddod yn hyderus a chymryd mwy o gyfrifoldeb. Er mwyn gwneud hyn yn llwyddiannus hefyd mae'n rhaid wrth lefel uwch o hyder mewn rheolwyr gan uwch swyddogion wrth wneud penderfyniadau corfforaethol.

18 Yn wythnosau a misoedd cynnar pandemig COVID-19, cafodd cyfarfodydd yr Awdurdod eu hatal dros dro, a bu'r Awdurdod yn defnyddio pwerau dirprwyedig y Prif Swyddog Tân i wneud penderfyniadau. Fe helpodd hyn yr Awdurdod i ymateb yn ddeinamig i sefyllfa'r pandemig a oedd yn newid yn gyflym.

19 Fe wnaeth deddfwriaeth frys a basiwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2020[4] alluogi Awdurdodau Tân ac Achub i gynnal cyfarfodydd awdurdod, gwneud penderfyniadau a chyflawni eu swyddogaethau o bell gan ddefnyddio technoleg. Fodd bynnag, ac eithrio cyfarfodydd rheolaidd rhwng Cadeirydd yr Awdurdod a'r Prif Swyddog Tân, ni chafodd cyfarfodydd o bell eu cyflwyno ar gyfer Aelodau'r Awdurdod tan fis Tachwedd 2020 – wyth mis i mewn i'r pandemig.

20 Nododd y rhai y cyfwelom ni â hwy fod teimlad mai ychydig o effaith yr oedd atal cyfarfodydd yr Awdurdod dros dro wedi'i chael ar y modd yr oedd gwasanaethau'n cael eu rhedeg, a sut yr oedd adnoddau'n cael eu defnyddio. Mae hyn yn glod i'r uwch swyddogion a arweiniodd yr Awdurdod trwy gydol y pandemig. Fodd bynnag, mae hefyd yn codi cwestiynau ynghylch cyfraniad a rôl aelodau mewn prosesau penderfynu a gweithgareddau craffu. Dylai risgiau a amlygir yn yr adroddiad hwn a materion megis monitro amgylcheddol, optimeiddio lleoliadau gorsafoedd, cynllunio'r gweithlu a chynllunio ar gyfer olyniaeth, yn ogystal â materion ariannol, i gyd gael eu cynnwys yn rheolaidd ar agenda'r Awdurdod ar gyfer craffu yn y dyfodol.

## Mae gan yr Awdurdod weithlu cydnerth ac mae wedi ymdrin yn dda â heriau uniongyrchol, ond mae rhai risgiau yn y tymor canolig y mae angen eu rheoli i sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy

21 Wrth graidd sefydliad cydnerth mae gweithlu cydnerth sy'n cynnwys staff effeithiol a chryf iawn eu cymhelliant sy'n gallu addasu i amgylchiadau sy'n newid. Mae nodweddion gweithlu cydnerth yn cynnwys staff egnïol, brwd â lefelau uchel o forâl a throsiant staff isel. Gall mynediad at gyfleoedd hyfforddi effeithiol, datblygiad gyrfa a chyflog teg helpu i greu gweithlu mwy brwdfrydig a chydnerth hefyd.

22 Mae Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub 2016[5] yn amlygu'r angen i Awdurdodau Tân ac Achub sicrhau bod eu gweithlu'n parhau i arallgyfeirio ac yn gallu ymateb i newidiadau. Yn wir, mae cynllunio a threfnu'r gweithlu i gwrdd â galwadau cyfredol ac yn y dyfodol yn bwysig i feithrin a chynnal cydnerthedd.

23 Oherwydd ei ddiwylliant cryf o fod yn hyderus ynghylch datrys problemau, gall yr Awdurdod ddatblygu ei weithlu i gyflawni ei gyfrifoldebau yn y tymor byr. Fodd bynnag, er bod swyddogion wedi'u drilio'n dda ac wedi arfer ag ymateb i achosion

[4] Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020

[5] Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub, Llywodraeth Cymru

brys, mae natur barhaus ymateb i'r pandemig yn galw am gymorth mwy parhaus i sicrhau lles swyddogion.

24 Canfuom fod gan swyddogion ddealltwriaeth dda am yr angen i gefnogi cydnerthedd unigolion er mwyn gwella cydnerthedd sefydliadol. Mae swyddogion yn ymwybodol o argaeledd ymgynghorydd Adnoddau Dynol dynodedig y gallant godi pryderon yn gyfrinachol gyda hwy. Hefyd, fe wnaeth y rhai y cyfwelom ni â hwy ddisgrifio dealltwriaeth dda am y risgiau sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl a lles ehangach.

25 Mae'r Awdurdod yn sicrhau bod ystod o fentrau ffurfiol ac anffurfiol ar gael i gynnal lles corfforol a meddyliol swyddogion. Mae hyn yn cynnwys mynediad at y platfform Care First, Cynllun Cefnogi Cydweithwyr; a grŵp Facebook mewnol lle trefnir bod nifer o sesiynau lles ac ymwybyddiaeth ofalgar ar gael. Mae'r Cynllun Cefnogi Cydweithwyr yn darparu system gyfrinachol, anffurfiol ac anghyfeiriol o gymorth ar gyfer pob aelod o staff. Bydd cefnogwyr cydweithwyr yn atgyfeirio unigolion ar gyfer cymorth mwy arbenigol os oes angen.

26 Disgrifiodd swyddogion her cyfathrebu mewnol effeithiol, yn enwedig gyda diffoddwyr tân wrth gefn sy'n rhoi cyfrif am ran fawr o'r gweithlu. Efallai nad dulliau cyfathrebu traddodiadol fel y fewnrwyd neu negeseuon e-bost ar gyfer y staff cyfan fydd y rhai mwyaf cynhwysol ar gyfer y rhai nad oes ganddynt fynediad rheolaidd at liniaduron. Yn gadarnhaol, fe ddyrannodd yr Awdurdod gyfeiriadau e-bost i'r holl staff yn ystod y cyfyngiadau symud gyda hynny'n arwain at gyfathrebu mewnol gwell. Darparodd hyn gyfle hefyd i swyddogion gael mynediad at ystod o gyfleoedd hyfforddi a datblygu trwy gydol y pandemig.

27 Mae'r Awdurdod yn dysgu o'i brofiadau o wneud pethau'n wahanol yn ystod y pandemig. Mae'n datblygu Polisi Gweithio Ystwyth ar gyfer staff y gwasanaethau corfforaethol a rhai aelodau o staff gweithredol, yr ystyrir ei fod yn allweddol i gynnal lles a lleihau effaith amgylcheddol yr Awdurdod yn y tymor hwy. Ystyrir bod gweithio ystwyth hefyd yn gyfle ar gyfer cydbwysedd gwell rhwng bywyd a gwaith. Datblygwyd y Polisi mewn ymgynghoriad â swyddogion yn dilyn arolwg staff i ddeall profiadau pobl o weithio gartref.

28 Mae ymateb yr Awdurdod i'r pandemig wedi dangos bod ei weithlu'n gallu ymateb i gyfnodau o newid. Fodd bynnag, mae swyddogion yn cydnabod bod cynllunio'n effeithiol ar gyfer olyniaeth yn dal i fod yn her sylweddol. Mae angen mynd i'r afael â'r risg hon i wella cydnerthedd yr Awdurdod yn y tymor canolig.

29 Mae angen ehangu sgiliau a phrofiadau corfforaethol diffoddwyr tân i greu cronfeydd o ddarpar ymgeiswyr am uwch rolau. Nid yw sgiliau megis dylanwadu ar eraill, herio safbwyntiau gwahanol, a meddwl am syniadau'n rhai a gysylltir yn draddodiadol ag ymatebwyr brys. Fodd bynnag, wrth symud ymlaen drwy'r rhengoedd, daw sgiliau a phriodoleddau o'r fath yn fwyfwy pwysig mewn lleoliad corfforaethol – er enghraifft, pan geir dyrchafiad o rôl rheolwr gwylfa i rôl rheolwr gorsaf.

30 Mewn ymateb i'r her hon, ac yn ychwanegol at gyfleoedd hyfforddi a datblygu sydd eisoes yn bodoli, mae'r Awdurdod wedi datblygu rhaglen ymgeiswyr â photensial

uchel ac arweinwyr y dyfodol. Fel rhan o'r rhaglen, mae swyddogion yn cael cymorth ychwanegol ac yn cael ystod o brofiadau sydd wedi'u bwriadu i ddatblygu eu sgiliau corfforaethol ehangach. Ar adeg ein gwaith maes roedd y rhaglen hon wedi cael ei hatal dros dro oherwydd y pandemig. Bydd ailgychwyn y rhaglen hon ac adeiladu arni'n helpu i wella'r modd y cynllunnir ar gyfer olyniaeth.

31 Mae'r ansicrwydd ynghylch rôl diffoddwyr tân yn y dyfodol yn achosi rhai risgiau i gynllunio'r gweithlu. Er enghraifft, bydd y potensial ar gyfer mwy o integreiddio â chyrff iechyd ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST), a rôl fwy ym maes rheoli adeiladu a diogelwch adeiladau, yn cael effaith gynyddol ar fodelau a phatrymau sifftiau cyfredol y gweithlu. Yn arbennig, mae diffoddwyr tân ar-alw, wrth gefn, sy'n fodel cydnabyddedig ar gyfer darparu gwasanaethau tân ac achub mewn ardaloedd gwledig, yn creu rhai risgiau i gydnerthedd yr Awdurdod, yn enwedig pan fo swyddi'n wag a chyfrifoldebau'r Awdurdod yn cael eu hehangu.

## Mae gan yr Awdurdod enghreifftiau da o'r modd y mae'n integreiddio asedau ac yn datblygu ei ddefnydd o dechnoleg ond mae rhai heriau hirsefydlog y mae angen mynd i'r afael â hwy i helpu i gefnogi cydnerthedd yn y dyfodol

32 Mae COVID-19 wedi pwysleisio pwysigrwydd seibergadernid. Mae dibyniaeth ar y rhyngrwyd wedi cynyddu'n aruthrol yn ystod 2020, gyda niferoedd enfawr o gyflogeion cyhoeddus a phreifat yn gweithio o bell, a chyda'r cyhoedd yn cynyddu eu defnydd o'r rhyngrwyd i gysylltu â ffrindiau a pherthnasau. Nid yw'r Awdurdod yn eithriad o gwbl yn hynny o beth. Nid yw'n syndod bod seiberddiogelwch yn cael lle amlwg ar y gofrestr risgiau. Mae'r Awdurdod yn gweithio tuag at gyrraedd y safonau a bennwyd gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC) ac mae ganddo nifer o brosiectau ar y gweill i'w helpu i ennill achrediad Cyber Essentials. Yn ychwanegol at wella protocolau mewngofnodi a hybu mecanweithiau waliau tân mae angen i'r Awdurdod barhau â'i ymdrechion i godi ymwybyddiaeth swyddogion o seiberfygythiadau a gweithio mewn modd seiberddiogel. Bydd cyflwyno Microsoft 365 o fis Mawrth 2021 yn darparu cyfle i wella seibergadernid trwy hyfforddiant pellach ar gyfer staff ac Aelodau.

33 Ar ôl cyflogeion, y gost fwyaf i Awdurdodau Tân ac Achub yw'r hyn y maent yn ei wario ar eu hadeiladau a'u cerbydau. Felly mae rheoli asedau'n dda'n hollbwysig i alluogi Awdurdodau Tân ac Achub i ddangos cydnerthedd a gwerth am arian. Mae angen i adeiladau fod yn addas ar gyfer y diben ac wedi'u lleoli yn y mannau cywir i Awdurdodau Tân ac Achub fod â darpariaeth ddigon eang a darparu gwasanaethau'n effeithlon.

34 Canfuom fod gan yr Awdurdod ddull strategol o gynnal asedau cyfredol. Mae ei strategaeth ystâd bum mlynedd yn seiliedig ar arolygon o gyflwr adeiladau sy'n goleuo'i raglenni o waith cynnal a chadw wedi'i gynllunio. Gyda chyllid cyfyngedig,

mae rhaglenni cynnal a chadw'n cynnwys amcanestyniadau tair a phum mlynedd gydag adolygon rheolaidd o gyflwr adeiladau'n sail i flaenoriaethu.

35 Mae'r Awdurdod yn gweithio gyda phartneriaid ac yn cydleoli i rannu rhai asedau a phlatfformau gyda Heddlu Gogledd Cymru ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Er enghraifft, mae'r system teleffoni a ddefnyddir gan yr Awdurdod mewn cydweithrediad ag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi creu arbediad blynyddol o £82,000 i'r Awdurdod.

36 Gyda'r Awdurdod yn datblygu Strategaeth Amgylcheddol ar hyn o bryd, disgrifiodd swyddogion y cyfwelom ni â hwy ddealltwriaeth dda am y modd y gall rheoli asedau helpu i weithredu a chyflawni manteision amgylcheddol. Mae'r Awdurdod wedi clustnodi cronfeydd ariannol wrth gefn i ariannu gweithgareddau amgylcheddol ac adroddir ar wariant perthnasol wrth y Rheolwr Cyfleusterau, ond nid wrth Aelodau'r Awdurdod ar gyfer craffu rheolaidd. Mae adroddiad ar Fioamrywiaeth a Chadernid Ecosystemau, a gyflwynwyd i'r Awdurdod Tân ac Achub llawn ym mis Rhagfyr 2019, yn amlygu cyfleoedd i adrodd yn fwy rheolaidd ar berfformiad yn erbyn Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 wrth yr Awdurdod.

37 Mae'r holl Awdurdodau Tân ac Achub yn wynebu her i sicrhau bod lleoliadau eu gorsafoedd tân yn eu galluogi i fod â darpariaeth ddigonol i ymateb i achosion brys. Cynhaliwyd yr adolygiad diweddaraf o leoliadau gorsafoedd tân yng Ngogledd Cymru yn 2015. Mae gorsafoedd wedi'u lleoli'n bennaf yn y prif ganolfannau poblogaeth, sy'n galluogi'r Awdurdod i ddarparu'r gwasanaethau y mae angen iddo'u darparu. Fodd bynnag, mae swyddogion yn cydnabod nad yw'r 44 o orsafoedd tân sydd gan yr Awdurdod wastad yn y lleoliad gorau i gynnal cydnerthedd gwasanaethau gyda'r rôl a disgwyliadau newidiol ar gyfer gwasanaethau tân ac achub.

38 Rydym yn cydnabod bod lleoliadau gorsafoedd yn gallu bod yn fater cynhyrfiol. Serch hynny, i sicrhau bod yr Awdurdod yn dal i fod yn gydnerth yn y tymor canolig a hir, a'i fod mewn sefyllfa dda i ysgwyddo cyfrifoldebau ehangach, mae angen i'r Awdurdod fynd ati'n rheolaidd i adolygu a herio'i dybiaethau ynghylch gorsafoedd. Mae angen i'r Awdurdod nodi manteision a risgiau'r model darparu cyfredol a'r cyfleoedd sy'n bodoli ar gyfer gwella. Bydd hyn yn galluogi'r Awdurdod i wneud dewisiadau anodd, ond gwybodus, ynghylch ble y mae angen iddo wneud newidiadau.

## Fe helpodd cynlluniau parhad busnes yr Awdurdod i gynnal cydnerthedd corfforaethol a gweithredol o ran ymateb i'r pandemig

39 Mae'n un o ofynion Deddf Argyfyngau Sifil 2004 a Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 bod gan Wasanaethau Tân ac Achub (GTAau) drefniadau parhad busnes priodol, fel y gellir cynnal lefel ymateb ofynnol bob amser.

40 Prif egwyddorion dulliau parhad busnes da yw adnabod gweithgareddau critigol ac unrhyw fygythiadau iddynt, datblygu cynllun sy'n nodi sut y bydd yr Awdurdod yn

cynnal gwasanaethau, a hyfforddi staff ac ymarfer cynlluniau, fel bod yr Awdurdod yn gallu bod yn hyderus y bydd ei drefniadau'n gweithio pan fydd eu hangen. Dylai parhad busnes effeithiol fod wedi'i sefydlu mewn sefydliadau fel bod ei roi ar waith yn dod yn ail natur i staff.

41 Canfuom fod gan yr Awdurdod gynlluniau parhad busnes effeithiol sydd wedi cael eu defnyddio'n dda a'u profi'n dda yn ystod y pandemig. Fe wnaeth yr egwyddorion allweddol o ran mabwysiadu strwythurau celloedd ymateb ac adfer profedig Gwasanaethau Tân ac Achub y DU (UK FRS) weithio'n effeithiol a galluogi'r Awdurdod i ymateb yn ddeinamig i heriau. Mae gwasanaethau statudol wedi cael eu cynnal ac nid effeithiwyd ar wasanaethau ymateb. Yn fwyaf arwyddocaol, ni ddylai'r cyhoedd fod wedi profi unrhyw wahaniaeth sylweddol yn y gwasanaeth wrth ffonio 999 am help.

42 O'r dechrau un, cydnabu'r Awdurdod fod gan y pandemig y potensial i newid cymdeithas a'r cyd-destun y mae'n darparu gwasanaethau ynddo. Fe wnaeth defnyddio iaith megis celloedd 'pontio' helpu i sicrhau bod swyddogion yn deall bod yr Awdurdod yn debygol o'i gael ei hun mewn byd tra gwahanol ar ôl y pandemig. Mae'r Awdurdod wedi cadw ffocws cryf ar gydnerthedd cymunedol yn ystod y cyfyngiadau symud. Mae wedi dod o hyd i ffyrdd gwahanol o ddarparu gwasanaethau – er enghraifft, trwy ddarparu gwiriadau Diogel ac Iach o bell dros alwadau fideo. Mae hefyd yn gweithio i gefnogi athrawon ac addysg yn y cartref gyda'i adnoddau addysgol StayWise.

43 Pan giliodd penllanw'r achosion o COVID-19 yn ystod haf 2020 achubodd yr Awdurdod ar y cyfle i ddysgu o'r modd yr oedd wedi ymateb trwy ymgysylltu â staff i oleuo cynllun adfer ar ôl trychineb yn y dyfodol. Roedd gwahanol senarios yn cael eu profi'n barhaus hefyd. Er enghraifft, fe brofodd yr Awdurdod y gallu i weithredu swyddogaethau rheoli tân o gartrefi swyddogion fel prawf cysyniad. Ni roddwyd hyn ar waith erioed ond mae bod â gwybodaeth a phrofiad profi o'r fath yn allweddol i gynnal a gwella cydnerthedd yr Awdurdod. Ac yntau wedi cofnodi ei gamau gweithredu a gwersi trwy gydol y cyfnod, mae'r Awdurdod bellach mewn sefyllfa well i gefnogi cydnerthedd corfforaethol yn ogystal â gweithredol.

44 Mae natur a diwylliant y sefydliad, gan gynnwys agwedd hyderus swyddogion, yn golygu bod yr Awdurdod wedi'i ddrilio'n dda i ymateb i achosion brys. Fodd bynnag, mae'r pandemig wedi galw am ymateb parhaus, ochr yn ochr â chynllunio ar gyfer adferiad. Mae bod mewn 'modd ymateb i achosion brys' am gyfnodau hir yn anarferol ac yn risg i les staff. Yn gadarnhaol, fodd bynnag, trwy ddysgu gwersi mae'r Awdurdod yn cymryd hyn i ystyriaeth – er enghraifft, trwy fod wedi mabwysiadu Polisi Gweithio'n Hyblyg newydd yn ddiweddar.

# Atodiad 1

## Methodoleg

Fe ofynnom ni:

- A oes gan yr ATA systemau rheolaeth ariannol cadarn ac effeithiol?
- A oes gan yr ATA drefniadau llywodraethu a chraffu addas i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn modd effeithiol ynghylch materion ariannol a materion sy'n ymwneud â'r gweithlu?
- A yw gweithlu'r ATA yn gydnerth i ymateb i gyfnodau o newid sylweddol yn awr ac yn y dyfodol?
- A yw'r ATA yn rheoli ei dechnoleg a'i asedau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol i sicrhau eu bod yn dal i fod yn gynaliadwy yn y tymor hwy?
- A oes gan yr ATA gynlluniau parhad busnes effeithiol sydd wedi cael eu profi ac sy'n ategu cydnerthedd corfforaethol ac yn helpu i greu gwasanaethau cynaliadwy?

Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod hydref 2020. Roedd ein dulliau'n cynnwys:

- cyfuno ein gwybodaeth a phrofiad archwilio cronnus, gan gynnwys cudd-wybodaeth a gasglwyd fel rhan o'r Prosiect Dysgu COVID-19;
- adolygu data a dogfennau allweddol;
- cyfweld ag 11 swyddog a dau Aelod Etholedig;
- cadw mewn cysylltiad rheolaidd â Phrif Gynghorydd Tân ac Achub Cymru;
- sganio'r gorwel i ganfod arfer gorau yn y DU, gan gynnwys cyfweliadau gydag Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Swydd Efrog, Awdurdod Tân ac Achub Swydd Bedford a Brigâd Dân Llundain; a
- rhoi adborth ar lafar i'r Prif Swyddog Tân a'r Prif Swyddog Cynorthwyol ym mis Ionawr 2021.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.